

Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiad (dirybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr: Ysbyty
Cyffredinol Llandudno,
Ward Beuno**

2 a 3 Medi 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	6
	Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	9
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	12
6.	Y Camau Nesaf.....	144
	Atodiad A.....	155

1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd o Ward Beuno Ysbyty Cyffredinol Llandudno, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 2 a 3 Medi 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi hanfodion gofal
- Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol.

2. Methodoleg

Mae arolygiadau urddas a gofal hanfodol AGIC yn adolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth gan nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth y mae AGIC yn meddu arni
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau, a chyfweliadau â staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Mae Ysbyty Cyffredinol Llandudno yn Llandudno, Conwy, Gogledd Cymru. Mae'n ysbyty cymunedol bach gydag oddeutu 150 o welyau. Yn draddodiadol mae Ysbyty Cyffredinol Llandudno wedi gwasanaethu dalgyllch sy'n ymestyn mor bell i'r gorllewin â Phenmaenmawr ac mor bell i'r dwyrain â (ac yn cynnwys) Bae Colwyn.

Mae gan yr ysbyty ddwy ward adsefydlu a dwy ward yn cynnig gofal llai dwys i gleifion o Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yn cynnwys meddygaeth, trawma ac orthopedig, llawdriniaeth a gynaecoleg. Fel rhan o raglen arolygu flynyddol AGIC fe wnaethom ymweld â Ward Beuno sydd yn ward feddygol.

Crynodeb

Dywedodd cleifion wrth y tîm arolygu eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a gawsant. Roedd cleifion hefyd yn ganmoliaethus o'r staff oedd yn darparu eu gofal a'u triniaeth.

Daeth y tîm arolygu i'r casgliad bod hanfodion gofal yn cael eu cyflenwi ar lefel sylfaenol. Fodd bynnag, daeth y tîm hefyd i'r casgliad bod problemau staffio ar y ward o ran niferoedd, cydnerthedd a'r cymysgedd sgiliau. Roedd y tîm staff ar y ward yn brysur iawn ac fe wnaethant brofi heriau sylweddol o ganlyniad i'r problemau hyn.

Ystyriwyd bod y dogfennau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal a thriniaeth diogel ac effeithiol yn wael ar y cyfan o ran eu hansawdd ac o ran pa mor gyflawn oeddent, ac ystyriwyd bod y problemau staffio, a nodwyd uchod, yn cyfrannu at hyn.

Daeth y tîm arolygu i'r casgliad bod problemau staffio ar y ward hefyd yn effeithio ar ansawdd profiad cleifion yn ystod amseroedd bwyd. Gwelsom fod dogfennau i gefnogi'r agwedd hon ar ofal cleifion naill ai ar goll neu ddim yn gyflawn.

Cafwyd diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol i helpu a chefnogi staff i ymdrin â'r heriau a'r pwysau yr oeddent yn eu profi o ddydd i ddydd.

Daeth y tîm arolygu hefyd i'r casgliad bod diffyg darpariaeth adsefydlu amlbroffesiynol ar y ward. Yn ogystal, nodwyd pryderon ynghylch faint o gyfraniad meddygol oedd yn y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.

Ar y cyfan, daeth y tîm arolygu i'r casgliad, o ystyried nifer y pryderon a nodwyd ganddynt yn ystod yr arolygiad, na ellid sicrhau cleifion y byddent yn derbyn gwasanaeth diogel ac effeithiol. Roedd hyn oherwydd, er gwaethaf ymroddiad a gwaith caled tîm y ward, roedd problemau staffio (niferoedd, cydnerthedd a chymysgedd sgiliau) a'r diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn cyfrannu at yr heriau a'r pwysau yr oedd staff yn eu profi o ddydd i ddydd.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrth y tîm arolygu eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a gawsant. Roedd cleifion hefyd yn ganmoliaethus o'r staff oedd yn darparu eu gofal a'u triniaeth.

Fodd bynnag, fe wnaeth y tîm arolygu nodi'r problemau isod fel rhai a allai gael effaith negyddol ar brofiad cleifion ar ward Beuno. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sicrhau:

- Bod digon o staff ar y ward a digon o staff i gynnal diogelwch ac urddas cleifion bob amser.
- Bod digon o gydnerthedd o ran staffio fel nad yw defnyddio staff asiantaeth a banc o anghenraid yn cael effaith ar y gallu i ddarparu dilyniant o ran gofal.
- Bod cymysgedd sgiliau staff yn briodol i gwrdd â'r amrywiaeth eang o anghenion cleifion.
- Bod y dogfennau cleifion sy'n ategu cyflenwi triniaeth a gofal diogel ac effeithiol ar waith ac yn cael eu cwblhau'n briodol.

Ni nodwyd unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud ag ansawdd profiad y claf. Mae problemau yn ymwneud â staffio a dogfennau yn cael eu trafod mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Ar y cyfan, daeth y tîm arolygu i'r casgliad bod hanfodion gofal yn cael eu cyflenwi ar lefel sylfaenol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y dogfennau i ategu'r gwaith o ddarparu gofal a thriniaeth diogel ac effeithiol yn wael ar y cyfan o ran eu hansawdd ac o ran pa mor gyflawn oeddent.

Nododd y tîm arolygu bod y ffaith fod y tîm staff yn brysur iawn ac yn profi heriau sylweddol o ganlyniad i'r problemau staffio a nodwyd yn yr adran flaenorol yn cyfrannu at hyn.

Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

Parchu pobl

Mae'n rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a dewis gwybodus bob amser, ac mae'n rhaid i'r gofal a ddarperir ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.

Daeth y tîm arolygu i'r casgliad nad oedd cleifion â nam gwybyddol yn cael digon o gymorth i gwrdd â'u hanghenion gwybyddol penodol.

Nododd y tîm arolygu bod gwaith y gweithwyr cymorth iechyd ar y ward yn arbennig yn nhermau'r cymorth a'r help yr oeddent yn eu rhoi i gleifion â nam gwybyddol. Er gwaethaf hyn, cymaint oedd pryder y tîm arolygu am y diffyg cymorth arbenigol penodol i gleifion â'r anghenion hyn, roedd hwn yn un o'r materion a godwyd gyda'r Bwrdd Iechyd ar ôl yr arolygiad mewn llythyr o sicrwydd ar unwaith.

Fodd bynnag, mae ymateb prydlon y Bwrdd Iechyd i'r llythyr hwn wedi rhoi digon o sicrwydd i AGIC bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd. Yn benodol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Bydd yn recriwtio gweithiwr cymorth dementia. Mae'r swydd hon eisoes wedi cael ei chreu a chaiff ei gwerthuso mewn rhan arall o'r Bwrdd Iechyd a deallir mai prif ddiben y swydd fydd rhoi cymorth i gleifion â dementia a namau gwybyddol eraill.
- Bydd yn adolygu'r defnydd o'r ystafell ddydd ac yn ystyried datblygu'r ardd awyr agored.
- Mae'r Bwrdd wedi ceisio arbenigedd mwy priodol i sicrhau bod y ward yn cael ei gosod allan mewn ffordd sy'n addas i gleifion â dementia

- Mae'r Bwrdd wedi recriwtio mwy o wirfoddolwyr 'Robin' gyda'r nod o ddarparu mwy o weithgareddau.
- Bydd yn darparu sesiynau yn ymwneud â gofal cleifion â dementia fydd yn cael eu rhedeg ar y cyd gan nyrs seiciatrig gymunedol a'r fferyllfa
- Mae'r Bwrdd wedi nodi dau hyrwyddwr pili pala ar y ward ac mae'r cynllun ar waith
- Bydd yn adolygu penodiad nyrs sydd wedi cofrestru'n ddeuol, gyda'r nod o ddarparu cymorth arbenigol pellach.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd gynnwys manylion unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd ganddo yn sgil y canfyddiadau mewn perthynas â chwrdd ag anghenion cleifion â dementia a namau gwybyddol eraill tebyg.

Bwyta ac yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n bodloni eu gofynion maethol a phersonol, a dylid darparu unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Ar y cyfan, daeth y tîm arolygu i'r casgliad bod y problemau staffio ar y ward yn cael effaith ar ansawdd profiad cleifion yn ystod amseroedd bwyd. Hefyd, gwelwyd bod dogfennau i ategu'r agwedd hon ar ofal cleifion naill ai ar goll neu'n anghyflawn.

Nododd y tîm arolygu fod angen cymorth i fwyta ac yfed ar y mwyafrif o gleifion ar y ward. Yr hyn a welsant, fodd bynnag, oedd bod rhai cleifion oedd angen y cymorth hwn yn gorfod aros gan fod staff yn brysur iawn oherwydd nifer y cleifion oedd angen y cymorth hwn.

O ran y dogfennau, nid oedd yn eglur i'r tîm arolygu a oedd Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cleifion y cafwyd eu bod mewn perygl. Roedd hyn oherwydd nad oedd asesiad maethol wedi ei gwblhau ar gyfer pob claf ac nad oedd gofal maethol wedi ei nodi'n eglur mewn cynlluniau gofal cleifion. Nododd ein tîm hefyd nad oedd siartiau bwyd a hylif Cymru Gyfan yn cael eu cwblhau yn briodol ac yn syth ar ôl pryd bwyd bob amser a gan y staff cywir sy'n rhan o arsylwi a helpu yn ystod amseroedd bwyd.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Iechyd Sicrhau, os oes angen cymorth ar gleifion i fwyta ac yfed, bod hyn yn cael ei nodi'n eglur yn eu cynlluniau gofal a phan drosglwyddir gofal ar ddiwedd sifft bod digon o staff ar gael i helpu cleifion yn ystod prydau bwyd. Dylai cofnodion priodol fod ar waith i fonitro faint o fwyd a dŵr mae cleifion yn ei dderbyn a dylid eu cwblhau yn syth ar ôl prydau bwyd.

Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Ar y cyfan, daeth y tîm arolygu i'r casgliad bod problemau staffio ar y ward o ran niferoedd, cydnerthedd a chymysgedd sgiliau. Yn ogystal, roedd diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol i helpu a chefnogi staff i ymdrin â'r heriau a'r pwysau yr oeddent yn eu profi o ddydd i ddydd.

Daeth y tîm arolygu i'r casgliad hefyd bod diffyg darpariaeth adsefydlu amlbroffesiynol ar y ward. Nodwyd pryderon hefyd ynghylch faint o gyfraniad meddygol oedd mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.

Nododd y tîm arolygu bod diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth ar y ward. Nodwyd nad oedd rheolwr ward llawn amser ar y ward. Yn hytrach, mae prif nyrs ward band 6 yn gweithredu ar hyn o bryd fel prif nyrs ward band 7 ac yn rheoli dwy ward, mae un ward ar y llawr daear a'r llall ar y llawr cyntaf. Gwelodd y tîm arolygu nad oedd ward Beuno'n derbyn cyfran deg o amser a sylw rheolwr y ward. Yn dilyn trafodaethau gyda staff y ward daeth y tîm i'r casgliad fod hwn yn cael effaith niweidiol ar agweddau ar wasanaethau cleifion a morâl y staff.

Daeth y tîm arolygu i'r casgliad hefyd nad oedd digon o nyrsys yn gweithio ar y ward a bod eu cymysgedd sgiliau'n annigonol, yn arbennig o ystyried anghenion cleifion, yn arbennig y rhai â namau gwybyddol.

Cymaint oedd pryder y tîm arolygu nes iddo godi'r materion hyn gyda'r Bwrdd Iechyd ar ôl yr arolygiad mewn llythyr o sicrwydd ar unwaith.

Fodd bynnag, mae ymateb prydlon y Bwrdd Iechyd i'r llythyr hwn wedi rhoi digon o sicrwydd i AGIC bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd. Yn bendodol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Ceisio penodi prif nyrs ward band 7. Hyd nes bydd y penodiad hwn wedi ei wneud, bydd y metron yn gweithio ar ward Beuno i ddarparu cymorth rheolaeth ac arweinyddiaeth ychwanegol.
- Dyrannu uwch nyrs reoli i helpu'r metron i weithredu'r cynllun gwella sicrwydd ar unwaith ac i ddarparu sicrwydd o ran ansawdd a safonau.
- Sicrhau bod y ward yn darparu digon o staff i gwrdd ag anghenion cleifion ar y ward
- Adolygu cymysgedd sgiliau ar y ward yn ddyddiol
- Parhau i fonitro'r gymhareb staff parhaol i staff banc / asiantaeth ar y ward.

- Adolygu'r gymysgedd sgiliau ar wardiau eraill yn rheolaidd ac ail ddyrannu staff fel y bo'n briodol
- Adolygu aciwtedd /dibyniaeth cleifion ar y ward yn rheolaidd
- Rhoi Uwch Ymarferydd Nyrsio ar y ward pan fydd aciwtedd / dibyniaeth cleifion a'r gymhareb staff parhaol i staff dros dro yn gwneud hynny'n angenrheidiol.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Iechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd gynnwys manylion unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd ganddo yn sgil y canfyddiadau mewn perthynas â faint o nyrsys sydd ar gael a'r gymysgedd sgiliau.

Daeth y tîm arolygu i'r casgliad nad oedd lefel yr adsefydlu amlbroffesiynol yn ddigonol. Yn ogystal, os oedd cleifion wedi derbyn rhywfaint o adsefydlu cyn cyrraedd y ward, nid oedd yr adsefydlu hwn yn cael ei barhau i'r un graddau, os o gwbl, wedi iddynt gyrraedd y ward.

Ni allai'r tîm arolygu dystio a oedd unrhyw gyfraniad meddygol i'r cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol. Gwnaethant ddarganfod bod ymgynghorydd ar raddfa ymgynghorydd meddygol yn gweithio o 9:00am tan 5:00pm a bod uwch ymarferwyr nyrsio'n gweithio o 5:00pm tan 9:00am. Daeth y tîm arolygu i'r casgliad y gellid gwneud mwy i sicrhau bod cyfraniadau gan ymgynghorydd ac uwch ymarferydd nyrsio yn cael eu darparu mewn ffordd a fyddai'n sicrhau cymryd rhan mewn creu cynlluniau gofal a darparu gofal i gleifion.

Cymaint oedd pryder y tîm arolygu nes iddo godi'r materion hyn gyda'r Bwrdd Iechyd ar ôl yr arolygiad mewn llythyr o sicrwydd ar unwaith.

Fodd bynnag, mae ymateb prydlon y Bwrdd Iechyd i'r llythyr hwn wedi rhoi digon o sicrwydd i AGIC bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd. Er enghraifft, bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Sicrhau bod diwylliant o adsefydlu'n cael ei ddatblygu, sy'n cynnwys gweithio amlddisgyblaethol ac agwedd o allu gwneud gan bob aelod o staff.
- Ymgymryd ag adolygiad o therapïau i ganfod y problemau penodol y mae angen rhoi sylw iddynt yn y cyd-destun hwn
- Adolygu holl gynlluniau swyddi ymgynghorwyr i sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyfarfodydd amlddisgyblaethol.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Iechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd gynnwys manylion unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd ganddo yn sgil y canfyddiadau mewn perthynas ag ailsefydlu a chyfraniad meddygol mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.

Nododd y tîm arolygu faterion eraill a allant gael effaith negyddol ar ansawdd rheolaeth staffio ac arweinyddiaeth. Felly dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sicrhau:

- Bod staff y ward yn derbyn adborth ar unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i bryderon / digwyddiadau a godir ganddynt
- Bod staff yn cael adborth gan y Bwrdd, yn arbennig mewn perthynas ag unrhyw bryderon neu gwynion a godir ganddynt
- Bod mesurau i wella morâl y staff yn cael eu hystyried.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro i AGIC y trefniadau presennol sydd ar waith i staff dderbyn adborth ar y pryderon, digwyddiadau a chwynion a godir ganddynt ac a ellir gwella'r rhain. Dylai hefyd egluro pa drefniadau sydd ar waith i fonitro a, lle bo angen, i wella morâl y staff.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid nodi a monitro risgiau a'u lleihau neu eu hatal lle'n bosibl.

Ar y cyfan, daeth y tîm arolygu i'r casgliad, o ystyried nifer y pryderon a nodwyd ganddynt yn ystod yr arolygiad hwn, na ellid sicrhau cleifion y byddent yn derbyn gwasanaeth diogel ac effeithiol yn gyson. Roedd hyn oherwydd, er gwaethaf ymroddiad a gwaith caled tîm y ward, roedd problemau staffio (niferoedd, cydnerthedd a chymysgedd sgiliau) a'r diffyg rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn cyfrannu at yr heriau a'r pwysau yr oedd staff yn eu profi o ddydd i ddydd.

Roedd y prif ganfyddiadau'n cynnwys:

Rheoli Meddyginiaeth

Gwelodd y tîm arolygu dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r ysbyty o ran storio, gweinyddu a chofnodi meddyginiaethau cleifion yn ddiogel. Roedd pryderon penodol a nodwyd gan y tîm arolygu'n cynnwys:

- Peiriant meddyginiaeth awtomatig nad oedd yn gweithio'n iawn
- Dim clo ar ddrws yr ystafell driniaeth, oedd yn cael ei ddal ar agor
- Roedd meddyginiaeth a chynhyrchion meddygol yn hawdd eu cyrraedd yn y cypyddau a'r droriau oedd ar agor yn yr ystafell driniaeth.
- Roedd meddyginiaeth wedi cael ei gadael allan ar yr arwyneb gwaith yn yr ystafell driniaeth.
- Roedd llawer o gleifion nad oedd ganddynt fanciau adnabod, ac o'r rhai oedd â nhw, nid oedd y bandiau'n cael eu gwirio bob amser cyn i feddyginiaeth gael ei gweinyddu i'r claf.

Cymaint oedd pryder y tîm arolygu nes iddo godi'r materion hyn gyda'r Bwrdd Iechyd ar ôl yr arolygiad mewn llythyr o sicrwydd ar unwaith.

Fodd bynnag, mae ymateb prydlon y Bwrdd Iechyd i'r llythyr hwn wedi rhoi digon o sicrwydd i AGIC bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd. Yn benodol, bydd y Bwrdd Iechyd yn cymryd y camau gweithredu canlynol:

- Gosod cloeon ar ddrws yr ystafell driniaeth

- Atgyfnerthu'r polisi rheoli meddyginiaethau gyda staff ar y ward
- Archwilio'r esgeulustod o ran cofnodion meddyginiaeth.
- Sicrhau bod y cleifion yn gwisgo bandiau adnabod. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n benodol gan y Metron.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd nodi unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd ganddo yn sgil y canfyddiadau i sicrhau bod ei drefniadau parhaus ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac effeithiol.

Systemau effeithiol ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol

Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro a sicrhau effeithiolrwydd ei wasanaethau, yn arbennig o ystyried y pryderon a nodwyd yn yr arolygiad hwn. Dylai ystyriaeth y Bwrdd lechyd gynnwys y materion canlynol mewn perthynas â systemau ar gyfer archwilio ac effeithiolrwydd clinigol ond ni ddylai fod yn gyfyngedig ganddynt.

- A yw gweithwyr proffesiynol rheng flaen, clinigol a rheolwyr, sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chleifion, yn cael eu grymuso'n ddigonol i leisio barn a gweithredu os ydynt yn canfod pryderon tebyg i'r rhai a ganfuwyd yn yr arolygiad hwn ac, yn unol â gofynion eu hymddygiad a chymhwyster proffesiynol eu hunain.
- A oes diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu o fewn y Bwrdd lechyd sy'n rhoi cymorth i staff ganfod a datrys problemau.
- A yw'r Bwrdd yn meddu ar yr wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws pob ymyriad clinigol a chymryd camau gweithredu cyflym pan geir diffygion.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd roi datganiad i AGIC ynglŷn ag a yw ei drefniadau presennol ar gyfer monitro effeithiolrwydd ei wasanaethau yn ddigon cadarn. Dylai'r Bwrdd lechyd nodi pa gamau gweithredu, os o gwbl, y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y Bwrdd yn gefnogol wrth ganfod a datrys problemau gwasanaeth mewn dull rhagweithiol ac amserol.

5. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur pryd a sut y bydd yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn Ward Beuno Ysbyty Cyffredinol Llandudno, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn yn systemig ar draws adrannau/ unedau eraill y Bwrdd Iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a chaiff ei werthuso'n rhan o'r broses arolygu barhaus o urddas a gofal hanfodol.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Cyffredinol Llandudno

Ward/ Adran: Beuno

Dyddiad yr Arolygiad: 2 a 3 Medi 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Ni chafwyd unrhyw argymhellion penodol yn ymwneud ag ansawdd profiad y claf.			
	Cyflenwi Hanfodion Gofal			
8	Dylai'r Bwrdd Iechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd nodi unrhyw gamau gweithredu pellach y mae wedi eu cymryd yn sgil y canfyddiadau mewn perthynas â chwrdd ag			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	anghenion cleifion â dementia a namau gwybyddol tebyg eraill.			
9	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau, os oes angen cymorth ar gleifion i fwyta ac yfed, bod hyn yn cael ei nodi'n eglur yn eu cynlluniau gofal a phan drosglwyddir gofal ac ar ddiwedd sifft bod digon o staff ar gael i helpu cleifion yn ystod prydau bwyd. Dylai cofnodion priodol fod ar waith i fonitro faint o fwyd a dŵr mae claf yn eu derbyn a dylid eu cwblhau yn syth ar ôl prydau bwyd.			
Ansawdd Staffio, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
11	Dylai'r Bwrdd Iechyd roi diweddariad i AGIC ynglŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd nodi unrhyw gamau gweithredu pellach y mae wedi eu cymryd yn sgil y canfyddiadau mewn perthynas â lefelau staffio a chymysgedd sgiliau.			
12	Dylai'r Bwrdd Iechyd roi diweddariad i AGIC			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>yn glŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd nodi unrhyw gamau gweithredu pellach y mae wedi eu cymryd yn sgil y canfyddiadau mewn perthynas ag adsefydlu a chyfraniad meddygol i gyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol.</p>			
12	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd egluro i AGIC y trefniadau presennol sydd ar waith i staff dderbyn adborth am y pryderon, digwyddiadau a chwynion a godir ganddynt ac a ellir gwella'r rhain. Dylai hefyd egluro pa drefniadau sydd ar waith ganddo i fonitro a, lle'n bosib, i wella morâl y staff.</p>			
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol				
14	<p>Dylai'r Bwrdd Iechyd roi diweddariad i AGIC yn glŷn ag i ba raddau mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cyflawni. Dylai hefyd nodi unrhyw gamau gweithredu pellach a gymerwyd ganddo yn sgil y canfyddiadau i sicrhau bod ei drefniadau parhaus ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn</p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Bwrdd lechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	ddiogel ac effeithiol.			
14	Dylai'r Bwrdd lechyd roi datganiad i AGIC ynglŷn ag a yw ei drefniadau presennol ar gyfer monitro effeithiolrwydd ei wasanaeth yn ddigon cadarn. Dylai'r Bwrdd lechyd nodi pa gamau gweithredu, os o gwbl, y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y Bwrdd yn gefnogol yn canfod a datrys problemau gwasanaeth mewn dull rhyngweithiol ac amserol.			

Cynrychiolydd y Bwrdd lechyd:

Enw (printiwch):

.....

Teitl:

.....

Llofnod:

.....

Dyddiad:

.....